



reach

**Pecyn Cymorth
Trosglwyddo Asedau
Cymunedol Gwledig**

**www.bridgendreach.org.uk/hafan
01656 815080**

Cynnwys

Cyflwyniad

Sut i ddefnyddio'r Pecyn Offer

Chwalu'r Jargon

1 Cyn Trosglwyddo

- 1.1 Beth yw trosglwyddo asedau cymunedol?
- 1.2 Manteision trosglwyddo asedau cymunedol
- 1.3 Meithrin partneriaethau cymunedol effeithiol
- 1.4 Cynllunio busnes
- 1.5 Astudiaethau dichonolrwydd
- 1.6 Cael cyllid cyfalaf
- 1.7 Gwirio cynnydd

2 Diwydrwydd Dyladwy

- 2.1 Perchenogaeth eiddo
- 2.2 Cael arolwg cyflwr
- 2.3 Llywodraethu a strwythurau cyfreithiol
- 2.4 Materion cydymffurfio
- 2.5 Rheoli risg
- 2.6 Gwirio cynnydd

3 Rheoli Prosiect

- 3.1 Rheolaeth ariannol barhaus
- 3.2 Cynllunio ariannol
- 3.3 Rheoli prosiect adnewyddu/ ailfodelu ased
- 3.4 Cyfyngiadau dylunio
- 3.5 Gwirio cynnydd

4 Meddiannu

- 4.1 Cydymffurfio ag iechyd a diogelwch
- 4.2 Cynnal a chadw eiddo
- 4.3 Rheoli'r amgylchedd
- 4.4 Mentrau ynni cymunedol
- 4.5 Polisiâu a gweithdrefnau
- 4.6 Yswiriant
- 4.7 Gwirio cynnydd

5 Adnoddau a Thempledi

- 5.1 Adnoddau ychwanegol
- 5.2 Templed cynllunio busnes
- 5.3 Enghraifft o Siart Llif Arian
- 5.4 Offeryn meithrin partneriaethau
- 5.5 Templed ar gyfer dadansoddi anghenion hyfforddiant
- 5.6 Map o Ben-y-bont ar Ogwr Wledig

3

3

4**5**

6

6

7

9

10

11

14

15

16

20

21

26

27

29

31

32

33

35

37

39

41

42

44

46

47

47

48

50

51

52

53

56

61

62

63

Cyflwyniad

reach yw'r enw ar y rhaglen sy'n cyflwyno'r Cynllun Datblygu Gwledig ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae reach wedi datblygu'r Pecyn Offer hwn i helpu sefydliadau i lywio drwy'r broses Trosglwyddo Asedau Cymunedol Gwledig. Mae'r Pecyn Offer hwn ar gael ar ein gwefan hefyd www.bridgendreach.org.uk neu os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â reach@bridgend.gov.uk neu ffoniwch ni ar 01656 815080.

Mae map o wardiau gwledig Pen-y-bont ar Ogwr wedi'i gynnwys yn adran 5.6 y ddogfen hon.

Sut i ddefnyddio'r Pecyn Offer

Yn ein profiad ni, mae pob trosglwyddiad llwyddiannus o asedau cymunedol yn dibynnu ar gyd-drafod yn dda, cydymffurfiaeth dda, cyfathrebu da a meddu ar y cymysgedd cywir o sgiliau a gwybodaeth.

Felly, mae'r Pecyn Offer wedi'i lunio'n fwriadol i fod yn ganllaw sy'n hawdd ei ddarllen, sy'n darparu cyngor cam-wrth-gam ar y daith i ddwyn perchenogaeth neu reolaeth dros 'ased cymunedol' a reolwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr gynt.

Mae'r Pecyn Offer hwn mewn 5 adran: mae adran 1 a 2 yn cwmpasu'r cyfnod cyn trosglwyddo; mae adrannau 3 a 4 yn cwmpasu'r cyfnod ar ôl trosglwyddo, ac mae adran 5 yn cynnwys ystod o dempledi a chanllawiau a allai fod yn ddefnyddiol i chi. Mae'r tablau ar ddiwedd pob adran yn eich helpu i gofnodi eich cynnydd, ac rydym hefyd wedi cynnwys digonedd o ddolenni i wybodaeth ac adnoddau gan sefydliadau eraill.

Cyngor Bwrdeistref Sirol



Chwalu'r Jargon

Achos busnes – cyfiawnhad o ran pam y mae prosiect cymunedol yn haeddu buddsoddiad/cyllid.

Anghorfforedig – nid oes gan y sefydliad hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'w aelodau.

Ariannol hyfyw – yn y cyd-destun hwn p'un a all prosiect cymunedol dalu ei gostau a rhoi digon wrth gefn.

Asedau – at ddibenion y Pecyn Offer hwn, rydym yn cyfeirio at fuddiant daliadaeth mewn tir neu adeiladau.

Astudiaeth dichonolrwydd – proses i benderfynu a yw'r cynnig yn bosibl.

Corfforiad – mae gan y sefydliad hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'w aelodau.

Cymal terfynu – yr hawl i derfynu prydles ar un neu fwy o ddyddiadau penodol.

Cynaliadwy – prosiect cymunedol sy'n gallu dal i fynd yn y tymor hir.

Cynllun busnes – mynegiad ysgrifenedig o gynlluniau a rhagamcanion ariannol prosiect.

Deiliad prydles – rhywun sy'n prydlesu eiddo gan rywun arall.

Gallu – gallu grŵp i wneud rhywbeth.

Gwarged – elw.

Penawdau'r telerau – crynodeb o'r pwyntiau allweddol i'w cynnwys mewn prydles.

Prydles – cytundeb cyfreithiol rhwng y landlord a'r tenant sy'n amlinellu telerau'r denantiaeth.

Prydleswr – parti y rhoddwyd hawl iddo feddiannau eiddo am gyfnod penodol o amser.

Rhanddeiliaid – pawb sydd â buddiant mewn prosiect cymunedol.

Rhyddhad ardrethi – ystod o ostyngiadau ar filiau ardrethi sydd ar gael i sefydliadau.

Sylfaen asedau – faint o asedau y mae sefydliad yn berchen arnynt.

Tenantiaeth wrth ewyllys – meddiannu adeilad ar ewyllys y landlord.

Trosglwyddo asedau cymunedol (CAT) – trosglwyddo perchenogaeth o asedau sydd dan berchenogaeth gyhoeddus.

Trwydded – contract sy'n rhoi caniatâd i feddiannu eiddo. Fel arfer, mae hwn yn gytundeb llai ffurfiol a byrrach na phrydles.

1 Cyn Trosglwyddo

1.1 Beth yw trosglwyddo asedau cymunedol?

Trosglwyddo asedau cymunedol (CAT) yw'r broses lle mae cyrff cyhoeddus yn trosglwyddo perchenogaeth o'u tir ac adeiladau i sefydliad cymunedol. Yn aml, mae 'telerau'r' trosglwyddo yn agored i'w trafod, ond rhaid i'r ymgeisydd ddangos yn glir bod ganddo'r sgiliau, gwybodaeth, profiad a'r gallu i reoli asedau cymunedol, ac y bydd yr ased yn parhau i ddarparu manteision sylweddol i'r gymuned.

1.2 Manteision trosglwyddo asedau cymunedol

Mae gan drosglwyddo asedau cymunedol lawer o fanteision; fodd bynnag, mae'n bwysig cofio mai'r prif amcan yw sicrhau llwyddiant tymor hir, nid atebion tymor byr. Mae profiad ar draws y wlad yn dangos po fwyaf realistig a manwl y mae'r gwaith paratoi a chynllunio, yn enwedig yn gwneud â chreu incwm, po wellaf y mae'r siawns o lwyddo. Mae rhai cymunedau'n penderfynu peidio â throsglwyddo, naill ai oherwydd bod cyflwr yr ased yn rhy wael ac yn rhy ddrud i'w arbed, neu oherwydd amheuan ynghylch creu incwm yn y tymor hir. Serch hynny, gall y broses ddysgu ddod â chymunedau at ei gilydd, gan feithrin gwybodaeth a gwytnwch.

I'w gymuned, gall trosglwyddo ased:

- Gryfhau sefydliadau cymunedol (drwy eu helpu i ddatblygu eu 'sylfaen asedau').
- Datganoli penderfyniadau i lefel gymunedol.
- Bod yn gatalydd ar gyfer adfywio'r gymuned.
- Darparu cyfleoedd newydd i ddatblygu a gwella tir ac adeiladau.
- Annog cyfranogiad cymunedol a gwirfoddoli.
- Adeiladu'r hyder a'r gallu sydd gan bobl i wella eu cymuned.
- Rhaid i unrhyw drosglwyddo fod yn sefyllfa lle mae pawb ar eu hennill, felly dylech ystyried yn ofalus beth yw'r manteision i chi, eich cymuned a'r Cyngor bob tro.

Bydd y broses o ymgymryd â phrosiect cymunedol yn eich herio chi a'r sefydliad mewn nifer o wahanol ffyrdd. I fodloni'r heriau hyn a sicrhau eich bod yn cael y dechrau gorau posibl, mae angen i chi ofyn:

- A yw eich sefydliad wedi pennu 'amcanion' clir a chytûn ar gyfer eich prosiect cymunedol?
- A oes gan eich sefydliad y 'gallu' i gyflawni eich prosiect cymunedol?
- A yw eich sefydliad wedi profi bod y cynigion ar gyfer y prosiect yn 'ddichonol'?
- Sut olwg sydd ar 'achos busnes' eich sefydliad ar gyfer eich prosiect cymunedol?
- A fydd eich prosiect cymunedol arfaethedig yn darparu manteision go iawn i'r gymuned?

Mae'r adrannau canlynol wedi'u strwythuro i roi'r holl gyngor, arweiniad ac adnoddau gwybodaeth fydd eu hangen arnoch i ateb y cwestiynau hyn a mynd i'r afael â'r holl faterion allweddol sydd ynghlwm wrth reoli ased cymunedol.

1.3 Meithrin partneriaethau cymunedol effeithiol

Weithiau, gall gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fod yn her go iawn. Blaenoriaethau sy'n gwrthdaro, canlyn hunanfuddiant a gwrthdaro rhwng personoliaethau yw rhai o'r rhwystrau a all atal partneriaethau cymunedol effeithiol rhag cael eu creu. Fodd bynnag, y gallu i weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill fydd yn allweddol i lwyddiant trosglwyddo asedau cymunedol.

Isod, ceir rhai elfennau rydym o'r farn eu bod yn hanfodol ar gyfer meithrin partneriaethau cymunedol cadarn a chynhyrchiol.

Cael mwy o effaith

- Mwy o fanteision i bobl, busnesau neu gymunedau.
- Mwy o ymgysylltiad â grwpiau sydd dan anfantais neu grwpiau sy'n cael eu hallgáu.
- Mwy o fâs critigol: y gallu i 'gyrraedd a chyflawni y tu hwnt i allu unrhyw bartner unigol.

Bod yn fwy effeithlon

- Cyfuno adnoddau a chyfleusterau.
- Rhannu costau swyddogaethau cyffredin.

Denu mwy o adnoddau

- Denu cyllid cyhoeddus lle mae angen cynigion partneriaeth a thystiolaeth o allu partneriaid i gyflawni prosiectau ar y cyd ar fentrau.
- Cryfhau grym cyd-drafod â chyrrff cyhoeddus.

Darparu ffyrdd newydd a gwell o weithio

- Arloesedd: yn annog ffyrdd newydd a mwy effeithiol o wneud pethau a defnyddio adnoddau.
- Yn caniatáu safbwyntiau newydd a herio barnau o fewn y bartneriaeth.
- Yn darparu gwybodaeth gymunedol well am anghenion, cyfleoedd ac asedau.

Lledaenu risgiau

- Yn ychwanegu cryfderau, adnoddau a safbwyntiau cyflenwol.
- Yn darparu mwy o hyblygrwydd o fewn dull tîm.

Dolenni ar gyfer rhagor o wybodaeth:

- CGGC Gweithio gydag Eraill; <http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/working-with-others?seq.lang=cy-GB>

1.4 Cynllunio busnes

Mae cynllunio busnes da wrth wraidd pob enghraifft lwyddiannus o drosglwyddo ased cymunedol. Er nad yw byth yn rhy gynnar i ddechrau ar eich cynlluniau busnes, mae'n bwysig nodi bod datblygu cynllun busnes yn broses raddol, a byddwch yn darganfod bod gwahanol rannau'n disgyn i'w lle wrth i chi weithio drwy'r Pecyn Offer hwn a chasglu'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch.

Ar ei ffurf symlaf, canllaw yw cynllun busnes - map sy'n amlinellu amcanion eich sefydliad ac yn manylu ar sut rydych chi'n bwriadu eu cyflawni. Er nad oes unrhyw reolau pendant ynghylch strwythuro cynllun busnes, mae rhai pethau y mae'n rhaid i chi eu cynnwys, fel rhagamcanion ariannol a disgrifiadau o'r cynnyrch/gwasanaeth.

Fe gewch nifer o ganllawiau a thempledi ar gyfer cynlluniau busnes ar y rhyngwyd. Cymerwch y syniadau sy'n gweithio orau i chi, ond y rheol aur yw ei gadw'n syml ac yn onest, yn rhydd rhag jargon a defnyddio arddull ysgrifennu rydych yn gyffyrddus â hi.

Gallai cynllun busnes syml gynnwys:

- **Crynodeb Gweithredol** – Crynodeb o'r holl bwyntiau allweddol yn eich cynllun busnes.
- **Disgrifiad o'r Prosiect** – Mynegwch werthoedd ac amcanion eich sefydliad.
- **Y Farchnad** – Crynodeb o'ch marchnad darged, canlyniadau ymgynghoriadau cymunedol ac amlinelliad o'r gwasanaethau a'r cyfleusterau cymunedol presennol.
- **Cynlluniau Tyfu a Datblygu'r Busnes** – Disgrifiad manwl o'r cyfleuster presennol ac amlinelliad o'r potensial i dyfu a datblygu yn y dyfodol.
- **Rheoli'r Ganolfan** – Amlinelliad cryno o'ch strwythur staffio, rolau a chyfrifoldeb, eich sgiliau a galluoedd a'ch polisïau a gweithdrefnau.
- **Rhagamcanion Ariannol** – Pa gyllid sydd ei angen arnoch, pa gyllid ydych chi wedi'i sicrhau, rhagolygon incwm a gwariant 3-5 mlynedd a rhagolwg llif arian.
- **Gwybodaeth Ategol** – CVau staff/gwirfoddolwyr / llythyron o gefnogaeth / cynlluniau adeiladu ac ati.

I'ch helpu i ddod dros y cam cynllunio busnes, rydym wedi cynnwys templed cynllunio busnes ar ddiwedd y Pecyn Offer, sy'n rhestru'r holl gwestiynau allweddol y mae angen i chi fynd i'r afael â nhw wedi i chi adeiladu eich cynllun busnes.

Rhagor o wybodaeth:

- Busnes Cymru: <http://businesswales.gov.wales/cy/zones/startup/llunio-cynllun>
- Busnes Cymdeithasol Cymru: <https://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy/cynllun-busnes>
- CGGC: <http://www.wcva-ids.org.uk/wcvacym/1106>

1.5 Astudiaethau dichonolrwydd

I lawer o bobl, dyma fydd eich cam cyntaf tuag at weddnewid eich cymuned. Mae'n aml yn anodd cael cyllid ar gyfer y cam hwn, ac efallai y bydd angen i chi ddibynnu ar eich adnoddau eich hun i'w gwblhau. Yn gyntaf, mae angen i chi weithio allan beth yw eich blaenoriaethau allweddol. Wrth i chi wneud hynny, mae'n bwysig eich bod yn cadw eich blaenoriaethau'n CAMPUS: cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.

i. Cyn yr astudiaeth dichonolrwydd

- Mae gwaith cyn yr astudiaeth dichonolrwydd yn cwmpasu costau dadansoddi'r cysyniad o fod yn berchen ar ased. Bydd yn eich gorfodi i ateb y cwestiynau sylfaenol cyntaf.
- Pwy sydd angen yr adeilad hwn? Pwy fydd yn ei ddefnyddio a pha wasanaethau fydd yn cael eu rhoi iddynt?
- Sut gallai'r ased dalu amdano'i hun? Anaml iawn y bydd cyllid grant yn ffynhonnell o gyllid tymor hir – ac mae'n dod yn anoddach cael grantiau i dalu costau adeiladau.
- Pa adnoddau staffio sydd eu hangen arnoch? A fyddwch chi'n cyflogi staff neu'n dibynnu ar wirfoddolwyr?
- Pa hyfforddiant sydd ei angen arnynt? Pwy arall y mae angen i chi eu cyflogi?
- Pwy yw eich cwsmeriaid yn y dyfodol? Sawl cwsmer fydd gennych? Beth fydd eu gofynion?

Os nad ydych yn gwybod neu os ydych yn ansicr, bydd adroddiad cyn yr astudiaeth dichonolrwydd yn eich helpu i'w hateb.

Rhagor o wybodaeth:

- www.wcva.org.uk/advice-guidance/finding-and-getting-money

ii. Astudiaeth dichonolrwydd llawn

Mae astudiaethau dichonolrwydd llawn yn fwy manwl o lawer na'r gwaith cyn yr astudiaeth dichonolrwydd, oherwydd eu bod yn cwmpasu datblygu'r ased rydych yn edrych arno a'ch sefydliad eich hun yn fanylach.

Er nad yw astudiaeth dichonolrwydd yr un fath â chynllun busnes, bydd y cwestiynau y mae'n eu gofyn yn helpu i lywio cynllun busnes da.

Yn aml, mae angen cyllid i gwblhau astudiaeth dichonolrwydd llawn, oherwydd efallai y bydd angen cyngor proffesiynol i fynd i'r afael â'r canlynol:

- y cynllun ei hun – mae angen amser ac arbenigedd
- tîrfesuriadau a thîrfesurwyr
- cynlluniau penseiri
- ceisiadau cynllunio, os ydynt yn berthnasol
- holl gostau uwchraddio'r adeilad a chostau rhedeg realistig
- tystiolaeth a ymchwiliwyd o incwm y dyfodol

Rhagor o wybodaeth:

- <http://www.wcva.org.uk/advice-guidance/finding-and-getting-money?seq.lang=cy-GB>

1.6 Cael cyllid cyfalaf

Dyma'r cyllid a fydd yn gwednewid yr adeilad yn ased cymunedol go iawn, os yw eich cais yn llwyddiannus. Mae llawer o gystadleuaeth am grantiau, felly dylech ystyried cael cymorth proffesiynol i ysgrifennu eich cynnig. Mae cyngor ar gael gan Gymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr www.bavo.org.uk

Mae angen cyllid cyfalaf arnoch ar gyfer:

- adfer
- ailfodelu
- adnewyddu
- cyfarparu

Mae bron yn sicr y bydd angen cymysgedd o gyllid arnoch i wneud eich prosiect yn llwyddiant. Isod, ceir y prif ffynonellau cyllid y gallwch fanteisio arnynt – a'u nodweddion. Bydd angen i chi ystyried beth yw'r cymysgedd gorau i fodloni gwerthoedd eich sefydliad.

i. Grantiau

- Nid oes angen i grantiau gael eu had-dalu, cyn belled â'u bod yn cael eu gwario ar yr hyn y gwnaethoch gais amdano
- Sicrhewch eich bod wedi darparu deilliannau digon manwl ar gyfer eich cymuned
- Cyllidwch yn ddigonol ar gyfer amser staff, adroddiadau, monitro ac arfarnu, gweinyddu, hyfforddi ac arian wrth gefn.

Rhagor o wybodaeth:

- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) www.bavo.org.uk
- Cronfa Loteri Fawr: <https://www.biglotteryfund.org.uk/welsh/global-content/programmes/wales/people-and-places>
- Llywodraeth Cymru: <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/grants/community-facilities-programme/?skip=1&lang=cy>

ii. Rhoddion

Ffordd wych i bobl leol gefnogi eich prosiect. Pwyntiau i'w hystyried:

- Cymorth 'gwasgariad'. Gall ymgyrch dda ar y rhyngwyd ddod â rhoddion gan bobl y cawson nhw neu eu cyndeidiau eu geni a'u magu yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr, ond sydd bellach yn byw mewn rhannau eraill o'r DU neu dramor.
- Sicrhewch nad oes unrhyw amodau ynghlwm wrth roddion – os bydd cwmnïau am i'w logos gael eu harddangos, caiff hynny ei ystyried fel nawdd, a gall TAW fod yn

daladwy.

- Ewch i: www.localgiving.com i gael syniadau da ar gyfer codi arian yn lleol.

iii. Benthyciadau/Dyled

Trwy ddefnyddio'r adeilad fel sicrwydd cyfochrog, gallai benthyciad band fod yn ffordd gyflym i ddechrau ar y gwaith – OS oes llif incwm digon cryf i ddechrau ad-dalu'r benthyciad.

- Fel arfer, ceir benthyciadau gan fanciau a chânt eu had-dalu â llog.
- Gofynnwch gwestiynau, byddwch yn anodd eich plesio, a sicrhewch fod y darparwr yn deall nodau eich sefydliad.
- Byddwch yn glir yn eich cynlluniau busnes o ran sut byddwch yn ad-dalu'r benthyciad dros y cyfnod cytûn.

Rhagor o wybodaeth:

- Banc Triodos UK: www.triodos.co.uk
- Banc Co-op: www.co-operativebank.co.uk
- Barclays: www.barclays.com/citizenship/supporting-communities.html
- Charity Bank: www.charitybank.org
- RBS: www.inspiringenterprise.rbs.com
- Banc Lloyds: www.lloydsbankfoundation.org.uk
- HSBC: www.hsbc.co.uk/hsbc-in-the-uk/community

iv. Buddsoddiad cymunedol

Cronfeydd sydd fel arfer yn cynnig cyllid dyled i sefydliadau sefydledig sydd â llifoedd incwm gweddol fawr yw'r rhain. Mae'n werth edrych arnynt os oes gennych asedau eraill yn barod ac incwm i fenthycia yn ei erbyn <http://www.bigsocietycapital.com/>

v. Cyllid torfol a chyfranddaliadau cymunedol

Cyllid democrataidd yw hwn sy'n datgloi grym y rhyngwyd, ond y mae ei wreiddiau'n sownd yn y cyfnod Fictoriaidd, pan dalwyd am amwynderau dinesig drwy danysgrifiad lleol.

- Gall cyllid torfol gael ei godi trwy gynnig gwobrau ac ecwiti, ynghyd â chyfranddaliadau cymunedol
- Mae'n ddefnyddiol ar gyfer prosiectau fel tafarndai a siopau dan berchenogaeth y gymuned, lle mae pobl leol yn gyfranddalwyr ac yn gwsmeriaid. Crowd Funder: <http://www.crowdfunder.co.uk>

1.7 Gwirio cynnydd

Nid yw'r rhestr ganlynol yn gynhwysfawr, ond dylai roi canllaw i chi ar y ffactorau pwysicaf i'w hystyried yn ystod y cam hwn o'r broses.

Paratoi Cyn Trosglwyddo	Do/Ydy/ Oes/Ydym	Angen mwy o sylv
A fu ymgynghori digonol rhwng y cyngor a chymunedau ynghylch y posibilrwydd o drosglwyddo cyfleusterau cymunedol?		
A ydych wedi cytuno ar amserlen dros dro realistig ar gyfer trosglwyddo?		
A sefydlwyd grŵp cymunedol priodol sy'n cynnwys pobl leol yn llawn?		
A yw diben trosglwyddo'r ased wedi'i ddiffinio'n glir a'i rannu gan bawb dan sylw a'i gyfathrebu i'r gymuned ehangach?		
A yw pawb sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddo yn deall yn llawn yr ymrwymiad y maent yn ymgymryd ag ef?		
A ydych wedi cynnal dadansoddiad o anghenion i ddangos bod galw am y cyfleuster?		
A oes gan y sefydliad cymunedol yr holl sgiliau a'r profiad sydd eu hangen i gyflawni'r trosglwyddo?		
A ydych yn cymryd camau i feithrin gallu yn eich sefydliad e.e. asesu a bodloni anghenion hyfforddiant a chymorth?		
A ydych wedi ceisio cyngor a chymorth i ddechrau datblygu eich cynllun busnes?		

2 Diwydrwydd Dyladwy

2.1 Perchenogaeth eiddo

Mae Trosglwyddo Ased Cymunedol yn golygu trosglwyddo rheolaeth a/neu berchenogaeth tir ac adeiladau o gorff y sector cyhoeddus i sefydliad lleol. Mae'r hyn sy'n cael ei drosglwyddo yn amrywio ac mae'n bwysig deall beth sy'n cael ei gynnig i chi a beth yw eich cyfrifoldebau:

Math o Ddaliadaeth	Manteision	Anfanteision	Cyfrifoldebau
<p>Rhydd-ddaliad</p> <p>(Sef eich bod yn berchennog ar yr adeilad a'r tir oddi tano)</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Mae perchenogaeth yn rhoi sicrwydd ✓ Creu ased gwerthadwy ✓ Annibyniaeth ✓ Gallu defnyddio'r ased i helpu i godi cyllid ecwiti ✓ Dim taliadau gwasanaeth ✓ Rhyddid i wella neu ailddatblygu'r ased, a denu grantiau i wneud hynny 	<ul style="list-style-type: none"> × Mae prynu'n ddrud × Os yw'r ased mewn cyflwr gwael, efallai na fydd yn werthadwy × Gallai'r gweithredoedd gyfyngu ar ddefnyddio neu waredu'r ased 	<ul style="list-style-type: none"> • Talu am atgyweiriadau • Talu cost yswirio'r ased
<p>Prydles hir</p> <p>(Prydles o 25 mlynedd neu fwy, sydd weithiau'n cynnwys taliad cyfalaf yna talu rhent tir blyneddol)</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Sicrwydd perchenogaeth ✓ Annibyniaeth ✓ Gallu defnyddio'r ased i helpu i godi cyllid ecwiti 	<ul style="list-style-type: none"> × Mae'n cynnwys ymrwymiad tymor hir × Gall landlord roi cyfamodau yn y brydles i gyfyngu ar ddefnyddio'r ased 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae gan ddaliwr y brydles gyfrifoldebau tebyg i berchennog rhydd-ddaliad

Math o Ddaliadaeth	Manteision	Anfanteision	Cyfrifoldebau
Prydles am gyfnod penodol â rhent blynyddol cytûn	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Hawliau cyfreithiol dan y Ddeddf Landlord a Thenant, sicrwydd y ddaliadaeth (os nad yw wedi'i eithrio) ✓ Yn aml, gall y rhent fod yn isel neu'n rhad 	<ul style="list-style-type: none"> × Gall landlordiaid roi cyfamodau yn y brydles i gyfyngu ar ddefnyddio'r ased × Gall taliadau gwasanaeth gynyddu'n rheolaidd × Bydd angen cael caniatâd y landlord cyn gwneud unrhyw beth i'r eiddo × Cyfyngiadau ar y cyfle i wella'r adeilad neu godi arian ar gyfer gwelliannau oherwydd y brydles fer 	<ul style="list-style-type: none"> • Talu rhent a thaliadau gwasanaeth cytûn • Talu am atgyweiriadau ac yswiriant

Math o Ddaliadaeth	Manteision	Anfanteision	Cyfrifoldebau
<p>Cytundeb Tenantiaeth</p> <p>(cytundeb ffurfiol â rhent rheolaidd y gellir ei derfynu drwy'r naill barti neu'r llall i'r cytundeb yn rhoi rhybudd)</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Gallai rhent fod yn rhatach ✓ Llai o gyfrifoldeb am yswiriant neu atgyweiriadau ✓ Yn debygol o gael rhyddhad ardrethi dewisol ✓ Mae'n hawdd terfynu'r cytundeb 	<ul style="list-style-type: none"> × Nid yw'r ddaliadaeth yn sicr iawn × Mae'n hawdd i'r landlord derfynu'r cytundeb × Mae'n ei gwneud yn anoddach codi arian × Mae'n fwy tebygol y bydd cyfyngiadau ar ddefnyddio'r eiddo × Bydd angen caniatâd y landlord i wneud unrhyw beth â'r eiddo 	<ul style="list-style-type: none"> • Talu rhent

Math o Ddaliadaeth	Manteision	Anfanteision	Cyfrifoldebau
<p>Cytundeb Trwydded i Feddiannu</p> <p>(Gall fod yn gytundeb ysgrifenedig neu lafar ac mae'n aml yn cael ei alw'n gytundeb daliwr allwedd)</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Gellir ei ddefnyddio i ganiatáu i grŵp newydd brofi ei allu i weithredu cyn cymryd yr adeilad ar sail fwy sicr ✓ Yr un manteision â chytundeb tenantiaeth, oni bai nad oes unrhyw sicrwydd daliadaeth 	<ul style="list-style-type: none"> × Fel arfer am gyfnod byr o hyd at flwyddyn × Gall y naill barti neu'r llall ei derfynu drwy roi rhybudd × Mae'n debygol y bydd cyfyngiadau ar ddefnyddio'r adeilad × Efallai y bydd y landlord ond yn rhoi rhybudd byr cyn terfynu × Gofynion am ganiatâd y landlord 	<ul style="list-style-type: none"> • Talu rhent • Cyfrifol am amnewid neu addalu am unrhyw niwed i'r eiddo neu ddodrefn a ffitiadau
<p>Tenantiaeth ar ewyllys</p>	<ul style="list-style-type: none"> ✓ Yr un fath â Thrwydded i Feddiannu ✓ Caiff ei defnyddio'n aml i gymryd cam i gytundeb hwy 	<ul style="list-style-type: none"> × Gall tenant gael ei droi allan â chyn lleied â 24 awr o rybudd × Yr un fath â Thrwydded i Feddiannu 	<ul style="list-style-type: none"> • Talu rhent • Yr un fath â Thrwydded i Feddiannu

2.2 Cael arolwg cyflwr

Cam allweddol ar y daith o sicrhau eich ased yw comisiynu arolwg adeilad masnachol (neu arolwg cyflwr), a fydd yn rhoi darlun llawn i chi o gyflwr yr adeilad.

Nid yw arolygon cyflwr yn dilyn fformat safonol, felly mae'n rhaid i chi drafod cynnwys yr arolwg â'ch syrfëwr adeiladau, ac yna amlinellu hyn yn ysgrifenedig ynghyd â phris cytûn.

Gallai prif ystyriaethau'r adroddiad gynnwys:

- natur yr eiddo, oed yr adeilad a'i ddyluniad
- cyflwr y fframwaith strwythurol a'r gwneuthuriad, gan amlinellu unrhyw agweddau sy'n peri pryder a chost amcangyfrifedig unrhyw atgyweiriadau
- cyflwr y gwasanaethau – fel carthffosiaeth neu fynediad at ddŵr a thrydan
- cymhariaeth o gyflwr yr eiddo ag eiddo o oedran ac arddull tebyg

Dylai Adroddiad yr Arolwg amlinellu risgiau a gall yr ymatebion iddynt gael eu dosbarthu fel a ganlyn:

- Eithafol: Rhaid Cymryd Camau ar Unwaith
- Uchel: Cynllunio Camau Manwl yn Ofynnol
- Cymedrol: Cynllunio Camau yn Ofynnol
- Isel: I'w trin drwy weithdrefnau arferol

Dylai'r crynodeb amlygu unrhyw brofion neu arolygiadau pellach y dylid eu cynnal cyn gwneud ymrwymiad cyfreithiol:

- Adroddiadau arbenigol yn ymwneud â'r strwythur a gwasanaethau (draeniad, mecanyddol a thrydanol, asbestos)
- Profi deunyddiau
- Asesiad tân llawn
- Asesiad o'r gost adfer at ddibenion yswiriant

- Unrhyw brisiadau eraill nad ydynt wedi'u cynnwys ac y mae angen eu comisiynu ar wahân

Rhagor o wybodaeth:

- <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/planning/development-control/planning-advice.aspx>
- Dewch o hyd i syrfewr adeiladau lleol: <http://www.ricsfirms.com/>

2.3 Llywodraethu a strwythurau cyfreithiol

Mae cyfrifoldeb a rhwymedigaethau ymddiriedolwyr yn amrywio gan ddibynnu ar ffurf gyfreithiol eich sefydliad. Mae'n bwysig cofio y gallwch chi a'ch cymuned ond bod mor uchelgeisiol ac effeithiol ac y mae eich statws cyfreithiol a'ch strwythur llywodraethu yn ei ganiatáu.

Felly, gwnewch yn siŵr fod gennych y ffurf gyfreithiol orau ar gyfer yr hyn rydych chi'n gobeithio ei gyflawni ar gyfer eich cymuned.

Mae'r tablau isod yn crynhoi ystod o wahanol strwythurau cyfreithiol a rhai o'r rhwymedigaethau a'r cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â phob un ohonynt.

Elusennau Cofrestredig (Ymddiriedolaeth Elusennol)

Cyfrifoldebau a Dyletswyddau'r Ymddiriedolwyr

- Gall ymddiriedolwyr lofnodi cytundebau'n bersonol.
- Fel arfer, gall yr elusen fodloni unrhyw rwymedigaethau y mae'r ymddiriedolwyr yn mynd iddynt, cyn belled â'u bod wedi ymddwyn yn onest ac yn rhesymol. Fodd bynnag, os yw'r ymddiriedolwyr yn mynd i rwymedigaethau sy'n fwy na gwerth asedau'r elusen, gallai'r ymddiriedolwyr fod yn atebol ar gyfer unrhyw swm na all yr elusen ei dalu.

Corfforedig?

Nac ydy

Atebolrwydd i'r Ymddiriedolwyr yn Gyfngedig

Ydy

Rhwymedigaethau

Ymddiriedolwyr yn bersonol (ar gyfer yr elusen)

Strwythur Trosglwyddo Asedau Addas?

Argymhellir eich bod yn ceisio cyngor

- Os nad yw ymddiriedolwyr yr elusen eisiau dal yr hawl gyfreithiol ar gyfer unrhyw dir neu eiddo arall eu hunain, gallant benodi enwebai, ymddiriedolwyr daliannol (neu unigolion eraill) neu ymddiriedolwr gwarchodol (cwmni neu gorff corfforaethol arall sydd â'r grym i ddal eiddo ar gyfer yr elusen).
- Dylent sicrhau eu bod yn gweithredu'n unol â thelerau'r ymddiriedolaeth.
- Rhaid iddynt wirio a oes ganddynt y grym i gaffael a dal eiddo dan ddogfen lywodraethu'r elusen. Os nad oes gan yr Ymddiriedolwyr y grym hwn, gallant wneud cais i'r Comisiwn Elusennau i ddiwygio'r ddogfen lywodraethu.
- Dyletswydd gyffredinol i ymddwyn yn rhesymol. Gallai hyn ei gwneud yn ofynnol i'r ymddiriedolwyr geisio cyngor proffesiynol priodol er mwyn sicrhau bod y telerau a gynnigir yn rhesymol ar gyfer defnydd arfaethedig yr elusen, nad ydynt yn rhy feichus a bod prif fforddiadwy a theg yn cael ei dalu.

Cymdeithas Anghorfforedig

(gallai hyn cynnwys llawer o sefydliadau chwaraeon neu gymunedol)

Dyma'r strwythur anghorfforedig mwyaf cyffredin ar gyfer sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, ac mae'n cael ei ffafrio gan grwpiau newydd a grwpiau bach. Mae'r gymdeithas yn bodoli pan ddaw grŵp o bobl at ei gilydd i gyflawni amcan cytûn (heblaw gwneud elw), felly rhedeg canolfan gymunedol neu glwb chwaraeon.

Fel arfer, caiff y gymdeithas ei llywodraethu gan gyfansoddiad, sef dogfen gyfreithiol sy'n llywodraethu'r gymdeithas. Mae'n gosod amcanion y gymdeithas, ei haelodaeth a'i strwythur, a'r pwerau y mae'n eu rhoi iddi hi'i hun i gyflawni ei hamcanion. Mae'n ffurfio contract rhwng yr aelodau ac yn pennu'r hawlau a'r dyletswyddau sydd ganddynt. Mae'r gymdeithas yn cynnwys aelodau sy'n dirprwyo eu grym i bwyllgor rheoli i gyflawni gweithgareddau'r gymdeithas. Caiff y pwyllgor rheoli ei ethol gan yr aelodau, ac mae'n atebol iddynt.

Corfforedig?

Na

Atebolrwydd i'r Ymddiriedolwyr yn Gyfyngedig

Nac ydy

Rhwymedigaethau

Ymddiriedolwyr yn bersonol

Strwythur Trosglwyddo Asedau Addas?

Argymhellir eich bod yn ceisio cyngor

Manteision:

- **Hyblygrwydd** – gall cyfansoddiad y gymdeithas gael ei deilwra i weddu i'r gwahanol fathau o gymdeithas. Mae'r gymdeithas yn rhydd rhag rheolaethau statudol sy'n llywodraethu cwmni cyfyngedig.
- **Cost** – mae cymdeithas anghorfforedig yn rhad i'w sefydlu a'i rhedeg.

Anfanteision:

- **Dim hunaniaeth gyfreithiol ar wahân** – nid oes gan gymdeithas unrhyw hunaniaeth gyfreithiol ar wahân i'w haelodau. Mae hyn yn golygu na all y gymdeithas lunio contractau yn ei henw ei hun. Yn hytrach, caiff y gweithgareddau hyn eu cyflawni gan unigolion yn y gymdeithas.
- **Eiddo** – ni all cymdeithas fod yn berchen ar eiddo yn ei henw ei hun, felly rhaid iddi ddarparu i unigolion gael eu penodi'n ymddiriedolwyr i ddal asedau'r gymdeithas.
- **Atebolrwydd personol** – gall aelodau'r gymdeithas a'r pwyllgor rheoli fynd i atebolrwydd personol. Er enghraifft, pe byddai contract a awdurdodwyd gan y pwyllgor rheoli ei lunio, ond nad oes digon o gyllid, byddai aelodau unigol y pwyllgor yn atebol i dalu'r ddyled.

Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (CLG)

Cwmni cyfyngedig trwy warant (CLG) yw'r math mwyaf cyffredin o gorff anghorfforedig sy'n cael ei ddefnyddio gan grwpiau yn y sector gwirfoddol a chymunedol. Caiff ei gyfansoddi gan ei Femorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu.

Manteision

- Hyblygrwydd – Hawdd a rhad i'w sefydlu a gall fabwysiadu statws elusennol

Anfanteision

- Sicrwydd asedau – nid oes gan gwmnïau cyfyngedig drwy warant glo asedau cynwysedig

Corfforedig?
Ydy

Atebolrwydd i'r Ymddiriedolwyr yn
Gyfyngedig
Ydy

Rhwymedigaethau
Y cwmni

Strwythur Trosglwyddo Asedau Addas?
Oes

Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO)

Gall Sefydliad Elusennol Corfforedig (CIO) gael ei ddefnyddio gan sefydliadau elusennol sydd eisiau masnachu.

Manteision:

- **Masnachu** – mae strwythur Sefydliad Elusennol Corfforedig yn ei gwneud yn haws i elusennau fasnachu

Anfanteision:

- **Math newydd o strwythur** – mae Sefydliadau Elusennol Corfforedig yn strwythur cymharol newydd o hyd

Corfforedig?
Ydy

Atebolrwydd i'r Ymddiriedolwyr yn
Gyfyngedig
Ydy

Rhwymedigaethau
Yr elusen

Strwythur Trosglwyddo Asedau Addas?
Oes

Cwmnïau Buddiannau Cymunedol (CIC)

Mae Cwmni Buddiannau Cymunedol (CIC) yn strwythur cyfreithiol sy'n addas ar gyfer sefydliadau sydd eisiau bod yn fenter gymdeithasol. Nid strwythur cyfreithiol yw menter gymdeithasol, ond ymagwedd fusnes â diben cymdeithasol neu amgylcheddol, a lle caiff gwargedion eu hailfuddsoddi yn y busnes neu'n gymuned.

Manteision:

- **Clo asedau** – Mae hyn yn sicrhau y caiff asedau eu defnyddio er budd y gymuned

Anfanteision:

- **Rheoleiddio** – Rhaid i aelodau gydymffurfio â deddfwriaeth CIC a chwmnïau

Corfforedig?
Ydy

Atebolrwydd i'r Ymddiriedolwyr yn
Gyfyngedig
Ydy

Rhwymedigaethau
Yr elusen

Strwythur Trosglwyddo Asedau Addas?
Oes

Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (IPS)

Mae Cymdeithas Ddiwydiannol a Darbodus yn gymdeithas sy'n cynnal busnes neu fasnach er budd y gymuned. Mae IPS yn dueddol o fod yn gymdeithas gydweithredol sy'n cael ei rhedeg yn ddemocrataidd ac sy'n rhoi elw yn ôl i'r gymuned.

Manteision:

- **Ymgorfforiad** – mae IPS yn grŵp corfforedig sydd â'r un manteision â hunaniaeth gorfforaethol, atebolrwydd cyfyngedig, parhad ac ymgysylltiad aelodau.

Corfforedig?
Ydy

Atebolrwydd i'r Ymddiriedolwyr yn
Gyfyngedig
Ydy

Rhwymedigaethau
Y gymdeithas

Strwythur Trosglwyddo Asedau Addas?
Oes

Anfanteision:

- **Cost** – Gall IPS fod yn ddrud i'w sefydlu ac mae'n cymryd mwy o amser i'w gofrestru na Chwmni Cyfyngedig drwy Warant (CLG).
- **Diffyg preifatrwydd** – yn gyffredin â strwythur y cwmni, mae IPS yn destun craffu cyhoeddus, oherwydd y mae adroddiadau blynyddol i'r Cofrestrydd ar gael i'r cyhoedd.

2.4 Materion cydymffurfio

Gan ddibynnu ar y math o strwythur cyfreithiol a llywodraethu rydych chi'n ei ddewis, gallai fod materion cydymffurfio penodol y mae angen i chi eu hystyried.

Mae'r adran hon yn amlinellu'r arfer gorau sy'n cael ei argymhell gan y Comisiwn Elusennau ar gyfer elusennau sy'n derbyn asedau cymunedol, ond mae llawer o'r wybodaeth hon yn berthnasol i unrhyw sefydliadau cymunedol sy'n ymgymryd â'r broses trosglwyddo asedau cymunedol.

- Cyn llunio cytundeb, rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod gan yr elusen y pŵer i gaffael tir, naill ai'n rhydd-ddaliadol neu ar brydles.
- Nid oes unrhyw ofyniad i ymddiriedolwyr ddilyn gweithdrefn statudol wrth gaffael tir, ond dylent geisio cyngor a chael adroddiad gan syrfëwr er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwerth am arian, bod yr eiddo mewn cyflwr addas, a bod y caffaeliad er budd i'r elusen.
- Os oes tir neu eiddo yn cael ei brynu, dylai ymddiriedolwyr allu bodloni eu hunain bod y pris y maent yn ei dalu am y tir yn rhesymol, ac y bydd yr eiddo'n addas at y dibenion y mae'n cael ei brynu ar eu cyfer.
- Os yw'r endid cyfreithiol sy'n prynu eiddo (neu'n gwerthu eiddo presennol) yn elusen, yna bydd angen i chi sicrhau eich bod yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol Deddf Elusennau 2011.
- Lle mae ymddiriedolwyr yn dibynnu ar gyllid, mae'n well siarad â darpar fenthycwyr cyn ymgymryd ag unrhyw drafodaethau. Er enghraifft, bydd rhai cyrff sy'n dyfarnu grantiau ond yn cynnig cymorth os yw'r eiddo'n rhydd-ddaliadol neu os oes prydles o 25 mlynedd o leiaf ar waith.
- Dylid ceisio cyngor proffesiynol arbenigol gan syrfëwr siartredig bob tro.

Rhagor o wybodaeth:

- Deddf Elusennau 1993 (Adrannau 26, 36, 38 ac 82)
www.opsi.gov.uk/Acts/acts1993/ukpga_19930010_en_1
- Deddf Elusennau 2006
www.opsi.gov.uk/ACTS/acts2006/ukpga_20060050_en_1
- Y Comisiwn Elusennau: www.charity-commission.gov.uk/spr/charprov.asp#5

2.5 Rheoli risg

Dyma'r adran lle'r ydych yn gofyn y cwestiynau anodd. Yn bennaf oll, rhaid i chi fod â dealltwriaeth go iawn o risg – a gall hyn wneud y gwahaniaeth rhwng llwyddo a methu.

- Mae rheoli risg yn rhan greiddiol o gynllunio a rheoli prosiect wrth drosglwyddo asedau.
- Ystyriwch bob risg ar ei deilyngdod ei hun, eu blaenoriaethau a'u cyfleu i'r rhanddeiliaid allweddol.
- Dylai rheoli risg gael ei ystyried yn rhan hanfodol o'r broses o ddysgu sut i reoli.

Mae'r tabl isod yn eich galluogi i fynd i'r afael â risg mewn trefn resymegol.

Risgiau neu Wendidau	Camau gweithredu
Enghraifft: Mae'r adeilad mewn cyflwr gwael	Ceisiwch gyngor proffesiynol gan syrfëwr
Enghraifft: Nid oes gan ein sefydliad y sgiliau i lunio cynllun busnes	Gofynnwch i'r Cyngor eich cyfeirio at sefydliadau cymorth busnes perthnasol
Enghraifft: Mae angen cyllid ychwanegol i ddatblygu'r prosiect	Ceisiwch gyngor ar gyllid gan BAVO

Cyhoeddwyd canllaw manwl ar gyfer elusennau a rheoli risg gan y Comisiwn Elusennau: <https://www.gov.uk/government/publications/charities-and-risk-management-cc26>

2.6 Gwirio cynnydd

Diwydrwydd dyladwy	Cwblhawyd	Angen mwy o sylw more attention
A ydych wedi cysylltu â Swyddog Trosglwyddo Asedau Cymunedol y Cyngor?		
A oes proses glir ar gyfer sut mae'r Cyngor yn ymdrin â'r trosglwyddo?		
A oes dogfen disgwyliadau sy'n amlinellu cyfrifoldebau'r naill barti a'r llall a lefel y cymorth sydd ar gael gan y Cyngor?		
A yw'r Cyngor wedi rhoi arolwg cyflwr cyfredol i chi ar gyfer y cyfleuster, ynghyd ag amcangyfrif o'r costau rhedeg?		
A oes goblygiadau gwaharddol o ran costau ac adnoddau'r rheolaeth/ perchenogaeth sy'n gysylltiedig â throsglwyddo?		
A ydych yn deall yn llawn y cytundeb daliadaeth y mae'r Cyngor yn ei gynnig i chi? e.e. trwydded, prydles, rhydd-ddaliad		
A ydych wedi ceisio unrhyw gyngor proffesiynol annibynnol? e.e. syrfewyr, cynghorwyr cyfreithiol		

Diwydrwydd dyladwy	Cwblhawyd	Angen mwy o sylw more attention
A yw eich strwythur cyfreithiol/llywodraethu presennol yn addas i'r diben?		
A ydych wedi ceisio cyngor gan sefydliadau'r 3ydd sector? e.e. Canolfan Cydweithredol Cymru, BAVO, Ymddiriedolaeth Datblygu Cymru.		

Rhagor o wybodaeth:

- Cymdeithas Ymddiriedolaethau Datblygu Cymru - <http://www.dtawales.org.uk/cym/>
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr - www.bavo.org.uk
- Canolfan Cydweithredol Cymru - www.cymru.coop

3 Rheoli Prosiect

Mae eich adeilad gennych! Nawr, y cwbl sydd angen i chi ei wneud yw ei redeg a gwneud iddo dalu. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu'r prif agweddau y bydd angen i chi eu deall a'u rhoi ar waith.

3.1 Rheolaeth ariannol barhaus

Mae rheolaeth ariannol barhaus dda yn hanfodol i lwyddiant hirdymor eich prosiect. Mae hefyd yn sicrhau'r Cyngor a chyllidwyr eraill y gall y cyfleuster gael ei redeg yn briodol. Ar gyfer y rhan fwyaf o brosiectau, gall rheolaeth ariannol dda gael ei chyflawni trwy fabwysiadu ymagwedd resymegol a ffocysedig tuag at gyllid. Fodd bynnag, caiff pob sefydliad ei gynghori i geisio cyngor gan rywun sydd â chymhwyster neu brofiad cyfrifyddu ffurfiol.

Bydd sefydlu systemau ariannol da yn creu cyfleuster lleol sy'n cael ei redeg yn dda ac yn lleihau'r risgiau camreoli sy'n gysylltiedig â chyllid ac enw da. Dyma'r systemau sylfaenol y mae eu hangen ar bob sefydliad i sicrhau gweithrediad ariannol sy'n cael ei reoli'n dda.

- Paratowch gyllideb flynyddol sy'n dangos costau ac incwm hyd yn hyn.
- Paratowch gyfrifon rheoli sy'n dangos costau ac incwm, sy'n dangos sut bydd y cyllid sydd ar gael yn bodloni'r amcanion gwreiddiol. Ni ddylid caniatáu unrhyw orwariant heb gynllun i'w ddatrys.
- Efallai y bydd angen cyfrifol blynyddol archwiliedig neu a archwiliwyd yn annibynnol ar gyfer prosiectau mwy, a dylid ceisio cyngor gan gyfrifydd cymwysedig.

Arferion ariannol da o ddydd i ddydd:

- Sicrhewch fod dau lofnodydd ar gyfer taliadau.
- Dylech ond talu am nwyddau neu wasanaethau ar ôl cael anfoneb ddilys (dyddiad, rhif unigryw, cyfeiriad busnes, rhif TAW os yw'n briodol, gwasanaethau/nwyddau a brynwyd).
- Dylai anfonebau gynnwys enw'r unigolyn a gytunodd ar y pryniant.
- Paratowch gysoniad sy'n nodi sieciau a ddsbarthwyd neu arian a dderbyniwyd nac ydynt i'w gweld ar y cyfriflenni banc hyd yn hyn.
- Datblygwch ddealltwriaeth glir o ofynion tendro'r Cyngor/cyllidwr a chydymffurfiwch â nhw - er enghraifft, efallai y bydd angen o leiaf tri dyfynbris

ar gyfer pryniadau dros £5,000, neu efallai y bydd angen ymarfer tendro mwy ffurfiol ar gyfer pryniant mwy.

Rhagor o wybodaeth:

- <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/caffaeliad-canllawiau-cyflenwyr.aspx>

3.2 Cynllunio ariannol

Mae arian yn hollbwysig! Nid yw'n anghyfreithlon i weithredu ar golled; fodd bynnag, os bydd gweithrediad yn masnachu tra mae'n fethdaliadol, gallai hyn wneud yr ymddiriedolwyr yn atebol i ddefnyddio eu harian eu hunain i dalu'r biliau!

Yr hyn y mae angen i chi ei wybod

- Llif arian yw'r arian sy'n llifo i mewn ac allan o sefydliad. Nid yw'n cynnwys dyledwyr neu gredydwyr, nes i'r dyledwr dalu neu'r credydwr gael ei dalu. Mae llif arian hefyd yn ystyried prynu neu waredu asedau.
- Mae rhagolwg llif arian yn elfen hanfodol o reoli unrhyw weithrediad. Daw'r rhagolwg o gyllideb y gweithrediad. Llif arian yw'r gyllideb ynghyd â'r dyddiadau pan fydd yr arian yn cyrraedd neu'n gadael eich cyfrif.
- Mae cyllideb ar gyfer lleiafswm o ddeuddeng mis. Dylai'r gyllideb gael ei rhannu'n gyllideb fisol, naill ai drwy rannu'r gyllideb yn rhandaliadau cyfartal neu drwy ddyrannu'r incwm a'r costau i'r mis y caiff yr incwm ei ennill ac yr eir i'r costau. Er enghraifft, os oes rhaid i'r gweithrediad dalu rhent, caiff ei dalu ym mis Rhagfyr, Mawrth, Mehefin a Medi, fel arfer. O ganlyniad, dylid dyrannu'r costau rhwng i'r pedwar mis hyn. Wedi i'r dyraniadau misol gael eu gwneud, mae'r llif arian yn hawdd.
- Ar ôl i'r llif arian gael ei lunio, rhaid iddo gael ei ddefnyddio! Mae'r llif arian yn offeryn sy'n eich galluogi i weld faint o arian rydych chi'n ei ddisgwyl/gyllido ar ddiwedd bob mis. Os yw'r llif arian yn dangos y bydd angen mwy o arian arnoch un mis nag sydd ar gael – CYMERWCH GAMAU GWEITHREDU.

Gallai'r camau gweithredu gynnwys:

- Taliadau gohiriedig. Mae'n gall rhoi gwybod i'ch credydwyr am y taliad gohiriedig fel nad ydynt yn cael problemau â'u llifoedd arian eu hunain
- Ceisiwch gael y bobl y mae arnynt arian i chi (yledwyr) i dalu'n gynharach.

- I rai, efallai y bydd yn gall cael gorddrafft gan y banc. Mae hyn yn costio arian – ffi i'w drefnu a llog ar y swm sy'n cael ei fenthyg, mae'n debyg. Fodd bynnag, dylid ond defnyddio gorddrafft ar gyfer problem fyrdymor, pan fydd gwerthiannau'n cael eu gwneud, grant yn cael ei dderbyn cyn bo hir neu daliad yn cael ei ddisgwyl gan ddyledwr. Os nad ydych chi'n gwybod pryd caiff y gorddrafft ei ad-dalu, nid dyna yw'r ateb.

Grantiau

Mae'r rhan fwyaf o brosiectau neu sefydliadau cymunedol newydd, os nad pob un ohonynt, yn dibynnu ar ryw fath o incwm grant. Fodd bynnag, mae nifer y grantiau sydd ar gael wedi lleihau'n sylweddol dros y degawd diwethaf, ac nid ydynt yn ffynhonnell ddibynadwy o incwm i sefydliadau a grwpiau cymunedol mwyach. Felly, y prif nod ar gyfer pob sefydliad newydd yw ei fod yn symud i sefyllfa lle mae'r prosiect yn dibynnu llai ar grantiau neu'n gwbl rydd rhag dibynnu ar grantiau. Gall fod yn anodd iawn cyflawni hyn. Fodd bynnag gall gosod targedau i leihau'r ddibyniaeth ar gymorth grant o un flwyddyn i'r llall o leiaf sicrhau bod camau'n cael eu cymryd i fod yn fwy blaengar.

Creu Incwm

Mae creu incwm annibynnol yn hanfodol os yw eich ased cymunedol am ddod yn ariannol gynaliadwy. Nid yw sefydliadau cymunedol yn ystyried eu bod yn 'gwerthu' unrhyw beth bob tro, ond mae darparu nwyddau neu wasanaethau neu logi ystafelloedd neu gyfleusterau i'r gymuned leol am ffi yn gwneud yr union beth - gwerthu. Rhagfynegi nifer y gwerthiannau'n gywir wrth fynd ymlaen fydd yr unig ffordd y gall eich sefydliad asesu ei incwm cyffredinol.

Cofiwch...

- Y cyfnod lleiaf ar gyfer cyllideb a llif arian yw deuddeng mis. Fodd bynnag, mae cyllideb a llif arian ar gyfer 3 i 5 mlynedd yn well. Dylai unrhyw gyllideb a llif arian gael eu diweddarau'n rheolaidd. Mae amllder y diweddarau yn dibynnu ar gyfnod y gyllideb, er enghraifft dylai'r llif arian ar gyfer y deuddeng mis nesaf gael ei ddiweddarau'n fisol, a chyllidebau hwy bob chwarter.

Rhyddhad Ardrethi

Gall elusennau a chlybiau chwaraeon cymunedol amatur wneud cais am ryddhad o hyd at 80% os yw eiddo'n cael ei ddefnyddio at ddibenion elusennol.

Gwiriwch â'ch cyngor lleol i weld a ydych yn gymwys <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/taxation/ardrethi-busnes.aspx>. Hefyd, dylech wirio a allwch gael 'rhyddhad dewisol' ychwanegol (hyd at 100%). Weithiau, caiff hyn ei ddarparu gan gynghorau lleol i roi cymorth ychwanegol i fusnesau cymdeithasol ac elusennau.

3.3 Rheoli prosiect adnewyddu/ ailfodelu ased

Mae rheoli'r prosiect sy'n cymryd yr eiddo presennol ac yn ei weddnewid yn ased i'r gymuned yn hanfodol ar gyfer unrhyw broses trosglwyddo asedau. I lawer o grwpiau, gall y broses hon fod yn heriol iawn, felly cyn i chi ddechrau ar y daith hon, mae'n gall cael dealltwriaeth lawn o'r risgiau cysylltiedig.

Bydd pob prosiect yn wahanol, ond mae'r risgiau posibl o ran prosiectau adnewyddu ac adeiladu fel arfer yn cynnwys:

- Gallu'r contractwr
- Cyfyngiadau cynllunio
- Llithriad y rhaglen
- Diffygion anhysbys yn yr adeilad
- Amodau tywydd
- Ansicrwydd ariannol

Bydd y modd y caiff y prosiect ei weithredu yn wahanol ar gyfer pob sefydliad; fodd bynnag, mae angen i bwyntiau allweddol fod ar waith er mwyn cwblhau unrhyw brosiect yn llwyddiannus:

- Mae angen i'r contract cywir fod ar waith â chontractwyr a chyflenwyr (gall cynghorwyr proffesiynol fel Syrffewyr Adeiladau a Syrffewyr Meintiau roi cyngor ar hyn).
- Bydd angen cytuno ar ffi ar gyfer y contract, ynghyd â manyleb glir ar gyfer y gwaith angenrheidiol.
- Yna, bydd y cleient a'r contractwr yn cytuno ar raglen waith, pwyntiau yn ystod y prosiect pan fydd angen talu contractwyr a chyflenwyr, a phroses glir ar gyfer cymeradwyo newidiadau.

Bydd angen cynllun gwaith ar y rhan fwyaf o brosiectau, sy'n nodi rolau allweddol y prosiect y mae angen ymgymryd â nhw:

- Cleient a/neu gynghorydd cleient
- Arweinydd prosiect
- Dylunydd arweiniol
- Pensaer
- Peiriannydd gwasanaethau adeiladu
- Peiriannydd sifil a strwythurol
- Ymgynghorydd costau
- Arweinydd adeiladu
- Gweinyddydd contractau
- Cynghorydd iechyd a diogelwch

Er y gallai'r rolau uchod gael eu cyflawni gan unigolyn yn eich sefydliad, y sefydliad cyfan sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol dros gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus. Felly, rhaid i'r broses rheoli prosiect gael ei thanategu gan y dulliau allweddol canlynol:

- Llywodraethu da
 - Aelodaeth gytûn ar gyfer bwrdd y prosiect
 - Cytundeb ynghylch pwy fydd â'r awdurdod i gymeradwyo dyluniadau a newidiadau
 - Ymgynghori â staff a'r gymuned
 - Trafodaethau â'r awdurdod lleol
 - Sefydlu tîm y prosiect a fydd yn cynnwys staff, gwirfoddolwyr a chynghorwyr proffesiynol allanol (penseiri, syrfewyr a chyfreithwyr ac ati)

- Rheoli costau'n effeithiol
 - Pennu cyllideb
 - Monitro costau
 - Gweithdrefnau caffael
 - Gweithdrefnau ar gyfer cymeradwyo gwariant
- Cynllunio trylwyr
 - Nodi tasgau, o'r dechrau i'r diwedd
 - Deall ac adrodd ar gostau posibl/gwirioneddol ar gyfer pob tasg
 - Trefnu tasgau – dyrannu tasgau i staff, ymgynghorwyr a chontractwyr
 - Nodi risgiau a lliniaru risgiau
 - Monitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn amserlen gytûn
 - Arfarnu cynnydd y prosiect a mapio eich dysgu

3.4 Cyfyngiadau dylunio

Cynllunio

Mae angen caniatâd ar y rhan fwyaf o adeiladau newydd neu newidiadau mawr i adeiladau presennol neu'r amgylchedd lleol – yr enw ar hyn yw caniatâd cynllunio. Heb system gynllunio, gallai pawb adeiladu adeiladau neu ddefnyddio tir ym mha ffordd bynnag yr oeddent yn dymuno, ni waeth pa effaith y byddai hynny'n ei chael ar bobl eraill sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal.

Efallai y bydd angen ceisio caniatâd cynllunio os byddwch am newid strwythur allanol neu olwg adeilad. Dylech geisio cyngor gan yr awdurdod cynllunio lleol bob tro i gadarnhau p'un a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio.

Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1987 yn rhoi defnydd tir ac adeiladau mewn categorïau amrywiol o'r enw 'Dosbarthiadau Defnydd'. Mae'r gorchymyn hwn yn cael ei ddiwygio o dro i dro.

Yn gyffredinol, bydd angen caniatâd cynllunio arnoch i newid o un dosbarth defnydd i un arall, er y ceir eithriadau lle mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu rhai newidiadau rhwng mathau o ddefnydd.

Er enghraifft, gall defnyddiau A3 (bwytaï a chaffis) newid i ddefnyddiau A1 (siopau) heb fod angen caniatâd cynllunio. Fodd bynnag, os ydych yn cynnig newid defnydd

adeilad neu dir, dylech geisio cyngor gan yr awdurdod cynllunio lleol bob tro i gadarnhau p'un a oes angen caniatâd cynllunio ai peidio.

Rhagor o wybodaeth:

- Mae gwybodaeth am ganiatâd cynllunio ar gael ar wefan y 'Porth Cynllunio' <http://www.planningportal.gov.uk>
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr: <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/planning.aspx>

Rheoliadau adeiladu

Gyda phob gwaith adeiladu, perchennog yr eiddo (neu'r tir) dan sylw sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r rheolau a'r rheoliadau adeiladu perthnasol, yn y pen draw (p'un a oes angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio a/neu ganiatâd rheoliadau adeiladu ai peidio).

Felly, bydd methu â chydymffurfio â'r rheolau perthnasol yn golygu bod y perchennog yn atebol am unrhyw gamau adferol (a all fynd mor bell â dymchwel ac/neu adfer). Y cyngor cyffredinol yw y dylech drafod eich cynigion â'r Awdurdod Cynllunio Lleol perthnasol a'r Gwasanaeth Rheoli Adeiladu bob tro cyn dechrau'r gwaith.

Mae gwybodaeth am reoli adeiladu ar gael ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/planning/building-control.aspx>

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol hefyd <https://www.gov.uk/topic/planning-development/building-regulations>

Adeiladau rhestredig

Caiff adeiladau eu rhestru os ystyrir eu bod o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol cenedlaethol.

Bydd adeilad rhestredig yn cael ei gynnwys ar y rhestr statudol o adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol arbennig. Mae'r rhestr hon yn cael ei llunio gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.

Darganfod a yw eiddo wedi'i restru

Mae'r gronfa ddata adeiladau rhestredig a'r map adeiladau rhestredig yn eich galluogi i chwilio am adeiladau rhestredig yn ôl enwau strydoedd.

Mae angen caniatâd adeilad rhestredig ar gyfer unrhyw waith ar adeilad rhestredig a fyddai'n effeithio ar ei ddi-ddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig. Mae'n drosedd i gyflawni gwaith ar adeilad rhestredig heb gael caniatâd gan y cyngor yn gyntaf, hyd yn oed os nad oeddech yn gwybod bod yr adeilad wedi'i restru.

Dylech hefyd wirio â'ch awdurdod cynllunio lleol i weld a yw eich gwaith arfaethedig mewn ardal gadwraeth, oherwydd gallai hynny gyfyngu'n sylweddol ar yr hyn yr hoffech chi ei wneud â'r adeilad.

Mae gwybodaeth am adeiladau rhestredig ac ardaloedd cadwraeth ar gael gan eich Awdurdod Cynllunio Lleol <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/planning/adeiladau-rhestredig.aspx>

3.5 Gwirio cynnydd

Rheoli Prosiect	Cwblhawyd	Angen mwy o sylw
A ydych wedi gwneud eich rhagamcanion ariannol ac a ydych wedi ystyried costau atgyweirio a chynnal a chadw yn y dyfodol?		
A yw'r holl randdeiliaid yn hyderus bod yr holl gostau ac incwm wedi'u rhagamcanu'n gywir?		
A oes gennych system reolaeth ariannol ar waith?		
A ydych yn bwriadu datblygu'r ased/cyfleuster?		
A ydych wedi datblygu strategaeth codi arian?		

Rheoli Prosiect	Cwblhawyd	Angen mwy o sylw
A ydych wedi rhannu'r cynlluniau hyn â'r gymuned ehangach?		
A oes unrhyw gyfyngiadau ar y cytundeb trosglwyddo ased cymunedol a all gyfyngu ar ei ddefnyddio a'i ddatblygu yn y dyfodol?		

4 Meddiannu

4.1 Cydymffurfio ag iechyd a diogelwch

Wedi i chi gymryd rheolaeth dros eich ased cymunedol, rhaid i iechyd a diogelwch y rhai sy'n defnyddio'r cyfleuster fod yn brif bryder, boed yn staff, gwirfoddolwyr neu ddefnyddwyr.

Mae hwn yn faes hanfodol i chi a'ch sefydliad ei ddeall, ac mae saith prif agwedd ar iechyd a diogelwch y mae angen i chi eu hystyried:

Asesiadau risg

- Asesiad risg yw archwiliad gofalus o'r hyn, yn eich adeilad, a allai achosi niwed i bobl, difrifoldeb y niwed y gellid ei achosi a'r tebygolrwydd ohono'n digwydd. Mae'n ystyried y rheolaethau sydd ar waith yn barod a ph'un a oes angen cymryd camau pellach ai peidio, ac yn gosod dyddiad ar gyfer cyflawni'r camau gweithredu.
- Os ydych yn hyderus eich bod yn deall yr hyn y mae angen ei wneud, gallwch wneud yr asesiad eich hun. Fel arall, gallwch ofyn i gynrychiolydd diogelwch undeb llafur neu ymgynghorydd diogelwch annibynnol eich helpu.
- Mae gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch dempledi ar gyfer asesiadau risg ar ei wefan. www.hse.gov.uk

Cymorth cyntaf

- Yn ôl y gyfraith, mae landlord yn gyfrifol am ddarparu pecyn cymorth cyntaf llawn a llyfr damweiniau mewn ardaloedd comunol.
- Fe'ch cynghorir i gadw cofnod o unrhyw ddamweiniau sy'n digwydd yn y gweithle – ni waeth pa mor fach – ynghyd â'r camau a gymerwyd i'w hatal rhag digwydd eto. Gall hyn fod yn ddefnyddiol iawn os bydd aelod staff neu wirfoddolwr yn dwyn achos yn erbyn y sefydliad oherwydd anaf personol yn y gwaith.

Tân

- Rhaid i bob adeilad fod â modd o ganfod tân, rhybuddio am dân, diffodd tân a dianc.

- Rhaid i'r unigolyn/unigolion cyfrifol gynnal asesiad risg tân sy'n amlygu ac yn cofnodi unrhyw beryglon a risgiau posibl i'w arolygu a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Tân Lleol.
- Bydd deddfwriaeth Diogelwch Tân yn berthnasol i bron pob adeilad ac mae'n cwmpasu pob math o adeilad, strwythur a man agored.
- I gael rhagor o fanylion am sut i gynnal asesiad risg tân a sicrhau eich bod yn bodloni eich rhwymedigaethau cyfreithiol, cysylltwch â'ch Gwasanaeth Tân Lleol. www.fireservice.co.uk/safety/hfsc

Trydan

- Mae'r landlord yn gyfrifol am gynnal Profion Dyfeisiau Cludadwy (PAT) ar ddyfeisiau trydanol comunol, ac mae tenantiaid yn gyfrifol am brofi eu hoffer eu hunain.
- Dylai profion gael eu cynnal yn flynyddol ar unrhyw offer sydd â phlwg.
- Mae angen i Brofion Dyfeisiau Cludadwy llawn gael eu cyflawni gan brofwr cymwysedig. Am gyfeirlyfr o gwmnïau cymwysedig ledled y DU, ewch i www.pat-testing.info
- Gallwch ddod o hyd i lawer o ddiffygion ag offer gwaith drwy edrych ar gyflwr y gwifrau – er enghraifft, os oes difrod gweladwy i'r plwg neu'r cebl neu os oes marciau llosgi sy'n awgrymu bod yr offer yn gorboethi.

Nwy

- Yn ôl y gyfraith, yn gyffredinol mae landlordiaid yn gyfrifol am ddiogelwch a chynnal a chadw ffitiadau a dyfeisiau nwy, a rhaid i wiriad diogelwch gael ei gynnal bob 12 mis.
- Efallai yr hoffai tenantiaid osod monitor carbon monocsid hefyd os oes ganddynt ddyfeisiau nwy yn eu hadeilad, fel bwyler nwy.

Dŵr

- Oni bai bod tenant yn meddiannu adeilad cyfan dan brydles atgyweirio ac yswirio llawn, mae'n debygol y bydd y landlord yn gyfrifol am y systemau dŵr yn yr adeilad, a dylid eu cynnwys mewn unrhyw asesiad risg. Os ydych yn gyfrifol am system a all peri risg o glefyd y lleng filwyr e.e. tyrau oeri neu gawodydd, bydd angen i chi roi mesurau ar waith i atal neu leihau'r risg.

- Mae clefyd y lleng filwyr yn fath o facteria sy'n gyffredin mewn systemau dŵr naturiol ac artiffisial. Mae'n ffynnu ar dymereddau rhwng 20°C a 45°C, ond caiff ei ladd ar dymheredd uchel. Sicrhau y caiff dŵr poeth ei storio uwchlaw 60°C yw'r prif ddull o'i reoli.
- I gael rhagor o wybodaeth am glefyd y lleng filwyr a'ch dyletswyddau dan ddeddfau iechyd a diogelwch cyffredinol, ewch i www.hse.gov.uk

Asbestos

Pwy bynnag sy'n gyfrifol am gynnal a chadw ac/neu atgyweirio adeiladwaith adeilad sydd â'r ddyletswydd dros atal unrhyw ddatguddiad i asbestos. Gan ddibynnu ar delerau'r brydles, gallai hyn olygu'r landlord, y tenant neu gallai fod cyfrifoldeb ar y cyd mewn rhai achosion.

Rhaid i bwy bynnag sy'n gyfrifol:

- Gymryd camau rhesymol i ddarganfod lleoliad a chyflwr deunyddiau sy'n debygol o gynnwys asbestos.
- Llunio a chadw cofnod cyfredol o leoliad a chyflwr y Deunyddiau sy'n Cynnwys Asbestos (ACMau) neu'r AMCau tybiedig yn yr adeilad, yn ôl yr angen.
- Cynnal asesiad risg a chynllunio i reoli risg.
- Rhoi gwybodaeth am leoliad a chyflwr y deunyddiau i unrhyw un sy'n atebol i weithio arnynt neu eu symud.
- Mae llawer o syrfewyr adeiladau yn gymwysedig i gynnal arolygon asbestos. Fel arall, gallwch ddefnyddio cwmni arolygu asbestos arbenigol.

4.2 Cynnal a chadw eiddo

Un o'r heriau mwyaf y byddwch yn ei hwynebu fydd gwybod sut i gynllunio a chyllidebu ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus. Gorau po fwyaf o fanylion sydd gennych. Cofiwch y gwaith a wnaethoch ar reoli risg (2.5).

Manteision gwaith cynnal a chadw cynlluniedig

- Galluogi cynllunio ariannol gwell
- Lleihau'r achlysuron pan fydd rhaid gwneud gwaith cynnal a chadw ar fyr rybudd

- Lleihau gwastraff e.e. tapiau sy'n diferu, golau aneffeithlon
- Cynnal a chadw offer yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr
- Sicrhau eich bod yn cydymffurfio â'r gyfraith e.e. trin bwyleri nwy, lifftiau, larymau tân ac ati
- Amgylchedd gweithio diogelach, sy'n rhoi darlun cadarnhaol, proffesiynol o'r sefydliad
- Arbed costau

Mae gwefan Maintain Your Building yn darparu adnoddau ar-lein gwerthfawr a sesiynau hyfforddiant ar sut i ofalu am hen adeiladau ac osgoi prosiectau atgyweirio drud. Mae'r cyngor ac arweiniad yn cynnwys popeth o doeau i ddraeniau. www.maintainyourbuilding.org.uk

Dylai gwaith cynnal a chadw cynlluniedig gynnwys yr holl feysydd canlynol:

- Gosodiadau mecanyddol a thrydanol
- Cyfleustodau – dŵr, gwres a goleuadau
- Glanhau
- Rheoli gwastraff
- Dodrefn, ffitiadau ac offer
- Atgyweirio ac amnewid
- Diogelwch
- Monitro cyflwr
- Iechyd a diogelwch

Wrth gwrs, mae rhai mathau o asedau yn ddrytach ac yn fwy llafurus i'w rheoli a'u cynnal a chadw na rhai eraill. Yn aml, mae cynnal a chadw tir yn disgyn i'r categori hwn, ac nid yw llawer o sefydliadau yn deall yn llawn yr hyn sydd ei angen i gadw caeau glaswellt a mannau chwarae mewn cyflwr derbyniol.

Byddai amserlen cynnal a chadw nodweddiadol ar gyfer cae chwarae yn cynnwys:

- Datgywasgu ac awyru
- Trin y wyneb â phridd
- Hadu
- Marcio
- Torri'r glaswellt yn rheolaidd
- Trin y wyneb â thywod
- Gwrtaith
- Rheoli chwyn a phryfaid genwair

(Dylid rhoi ystyriaeth ychwanegol i gynnal a chadw a storio offer hanfodol, fel peiriannau mawr, pyst gôl ac ati).

Os oes angen gwaith cynnal a chadw sylweddol neu arbenigol ar eich adeilad, efallai yr hoffech contractio un neu fwy o gwmnïau allanol i ymgymryd â'r gwaith ar eich rhan. Bydd angen i chi ddatblygu briff clir ar gyfer y gwaith sydd ei angen arnoch, a chael o leiaf tri dyfynbris gan ddarpar contractwyr. Os bydd y dyfynbrisiau'n amrywio'n sylweddol, sicrhewch fod yr holl contractwyr wedi deall a dilyn eich briff. Ni ddylech ddewis y dyfynbris rhataf bob tro, o reidrwydd. Dylech ofyn i contractwyr ddarparu datganiad dull, asesiad risg a chopi o'u tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

4.3 Rheoli'r amgylchedd

Mae effaith amgylcheddol adeilad yn dibynnu ar dri ffactor – yr adeilad ei hun, y gwasanaethau sy'n cael eu cynnig yn yr adeilad, ac ymddygiad y bobl sy'n defnyddio'r adeilad. Bydd y camau hyn yn eich helpu i symud ymlaen i leihau effaith amgylcheddol eich adeilad:

- Rhowch weithdrefnau ar waith i fonitro defnydd nwy, trydan a dŵr yn rheolaidd, a faint o wastraff rydych chi'n ei gynhyrchu.
- Ystyriwch newid i gyflenwr ynni gwyrdd neu gynhyrchu rhywfaint o'ch ynni eich hun ar y safle.
- Cymerwch gamau i leihau effaith amgylcheddol (drwy gael gwared ag offer aneffeithlon ac addysgu tenantiaid/defnyddwyr yr adeilad).
- Effeithlonrwydd ynni yw un o'r ffyrdd hawsaf i leihau carbon a chostau yn eich adeilad. Gall yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ddarparu gwybodaeth am effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a grantiau perthnasol.
- Rhaid i bob eiddo gael Tystysgrif Perfformiad Ynni (EPC) pan gaiff ei adeiladu, ei werthu neu ei brydlesu. Mae hyn yn golygu ei bod yn hawdd cymharu effeithlonrwydd ynni adeiladau ac mae'n galluogi darpar brynwyr, tenantiaid, perchnogion a phreswylwyr i werthuso effeithlonrwydd ynni adeilad a'i allyriadau carbon. Ar ôl iddi gael ei pharatoi, mae EPC yn ddilys am 10 mlynedd. Bydd EPC eich adeilad hefyd yn cynnwys argymhellion ar sut i wella effeithlonrwydd ynni'r adeilad.

4.4 Mentrau ynni cymunedol

Dewis arall i'w ystyried yw'r maes ynni cymunedol. Mae ynni cymunedol yn cwmpasu agweddau ar gamau gweithredu cyfunol i leihau, prynu, rheoli a chynhyrchu ynni. Mae gan brosiectau ynni cymunedol bwyslais ar ymgysylltiad lleol, arweinyddiaeth a rheolaeth leol, a'r gymuned leol yn elwa'n gyfunol ar y canlyniadau.

Y ddau ddewis uniongyrchol sydd ar gael i sefydliadau yw:

1. Newid yn gyfunol

Dyma ba bryd y bydd stryd, cymunedol neu sir gyfan yn dewis newid i un darparwr i gael pris gwell ar nwy neu drydan, neu'n cefnogi cynhyrchu ynni gwyrddach. Mae llawer o gynlluniau newid ar gael - gallant fod yn ffordd wych o godi ymwybyddiaeth o dreuliant ynni (a'i gost) yn eich cymuned.

2. Prynu'n gyfunol

Dod at eich gilydd i brynu a gosod insiwleiddiad ar gyfer eich croglofftydd, waliau ceudod neu waliau solet. Os cafodd eich cymuned ei hadeiladu tua'r un cyfnod, yna mae'n debyg bod gan bob un ohonoch yr un problemau. Os ydych yn byw mewn ardal wledig, yna gallech ymchwilio i swmp-brynu olew gan werthwr lleol.

Rhagor o wybodaeth:

- Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni: <http://www.energysavingtrust.org.uk/>
- Cyd Cymru: <https://cydcymru-collective.com/cy/>
- <https://www.gov.uk/guidance/community-energy>
- Canllaw swyddfa werdd WRAP http://www.wrap.org.uk/sites/files/wrap/WRAP_Green_Office_Guide.pdf
- Yr Ymddiriedolaeth Garbon <http://www.carbontrust.com/resources/guides/>

4.5 Polisiâu a gweithdrefnau

Bydd llawer o'r wybodaeth yn yr adran hon wedi'u hamlinellu yn eich polisiâu a'ch gweithdrefnau sefydliadol.

Mae polisiâu'n fframwaith cyfeirio arweiniol ar gyfer sut mae'r sefydliad yn mynd i'r afael â phopeth o'i broblemau gweithredol beunyddiol neu sut i gydymffurfio â deddfwriaeth, rheoliadau a chodau ymarfer. Mae'n bwysig bod polisiâu'n rhesymol, bod cyflogeion yn ymwybodol ac yn deall yn glir beth mae'r polisi'n ceisio ei gyflawni.

Mae gweithdrefnau'n esbonio sut i gyflawni tasgau a dyletswyddau. Gallai gweithdrefn nodi pwy yn y sefydliad sy'n gyfrifol am dasgau a gweithgareddau penodol, neu sut dylent gyflawni eu dyletswyddau.

Mae rhestr o'r polisiâu allweddol i'w hystyried wrth gymryd ased cymunedol drosodd yn cynnwys:

- Iechyd a diogelwch
- Cyfle cyfartal
- Amgylcheddol
- Gweithdrefnau ariannol
- Gwirfoddoli
- Plant ac oedolion sy'n agored i niwed
- Yr iaith Gymraeg

I gael rhestr lawn o bolisiâu enghreifftiol, ewch i:

<http://www.wcva.org.uk/volunteering/working-with-volunteers?seq.lang=cy-GB>

4.6 Yswiriant

Pam y mae angen yswiriant ar sefydliadau?

Mae gan aelodau corff llywodraethol ddyletswydd gyffredinol i warchod y sefydliad, gan gynnwys ei yswirio'n ddigonol. Bydd y lefel a'r math o yswiriant y bydd ei angen ar eich sefydliad yn cael eu pennu gan:

- gyfraith – mae rhai mathau o yswiriant yn orfodol.
- Y ddogfen lywodraethu – efallai y bydd yn cynnwys dyletswydd gadarnhaol i brynu yswiriant.
- Yr ystod a'r math o weithgareddau y mae eich sefydliad yn ymgymryd â nhw – fel yr asedau y mae'n berchen arnynt neu'n eu rheoli, a ph'un a oes ganddo staff.

A oes rhaid i ni yswirio?

Pan fo yswiriant yn orfodol neu'n hanfodol, dylai sefydliadau gael y lleiafswm cyfreithiol, o leiaf. Mae mathau eraill o yswiriant yn ddewisol, ond gallant fod yn werth eu cael gan ddibynnu ar amgylchiadau'r sefydliad. Felly, wrth ystyried yswiriant, meddyliwch am y risgiau go iawn y bydd y grŵp yn agored iddynt.

Beth fydd yn ei gwmpasu?

Mae'n bwysig yswirio staff, aelodau'r pwyllgor rheoli, gwirfoddolwyr ac aelodau arferol ar gyfer unrhyw atebolrwydd y gallant fynd iddo wrth gyflawni gwaith y sefydliad.

Yswiriant gorfodol:

- Yswiriant atebolrwydd cyflogwr – os yw eich sefydliad yn cyflogi staff, mae hwn yn ofyniad cyfreithiol. Rhaid i'r yswiriant lleiaf fod yn £5 miliwn ar gyfer anaf neu glefyd sy'n cael ei ddioddef neu ei ddal gan gyflogeion wrth gyflawni eu dyletswyddau.
- Yswiriant cerbydau – os yw eich sefydliad yn defnyddio cerbyd, mae'n ofyniad cyfreithiol i gael yswiriant yn erbyn atebolrwydd i drydydd parti.
- Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus – mae'n hanfodol ar gyfer elusennau sy'n berchen ar adeiladau neu'n eu meddiannu, neu sy'n cynnig gwasanaethau i'r cyhoedd, yn erbyn hawliadau gan aelodau'r cyhoedd (gan gynnwys gwirfoddolwyr ac ymddiriedolwyr) ar gyfer anaf, colled neu'n ddifrod sy'n cael ei achosi o ganlyniad i esgeulustod sefydliad.
- Yswiriant eiddo – argymhellir yn gryf eich bod yn yswirio adeilad ar gyfer ei werth adfer llawn, pan fydd sefydliad yn berchennog rhydd-ddaliad neu brydles tymor hir ac yn gyfrifol am yr yswiriant; dylai cynnwys yr adeilad gael ei gwmpasu gan bolisi 'pob risg' sy'n cynnwys dodrefn, offer ac arian parod.

Yswiriant dewisol:

- Yswiriant indemniad proffesiynol – yn darparu yn erbyn rhoi cyngor neu wasanaeth proffesiynol arall i aelodau'r cyhoedd sy'n arwain at ddifrod, anaf neu golled i ddefnyddiwr y gwasanaeth.
- Yswiriant indemnio ymddiriedolwyr a chyfarwyddwyr – mae'r yswiriant hwn yn darparu yswiriant cyfyngedig i ymddiriedolwyr yn erbyn tor-ymddiriedaeth.

4.7 Gwirio cynnydd

Meddiannu	Cwblhawyd	Angen mwy o sylw
A ydych wedi nodi eich holl rwymedigaethau iechyd a diogelwch ac wedi enwebu rhywun i fod yn gyfrifol am sicrhau eich bod yn bodloni'r gofynion statudol?		
A ydych wedi datblygu amserlen cynnal a chadw'r eiddo?		
A ydych wedi sicrhau bod gan y rhai sy'n gyfrifol am gynnal a chadw a rheoli'r cyfleuster y sgiliau a'r profiad perthnasol?		
A ydych wedi llunio rhestr o rifau ffôn brys ar gyfer cwmnïau cyfleustodau, plymwyr, trydanwyr ac ati?		
A ydych wedi sefydlu set glir o bolisïau a gweithdrefnau sefydliadau?		
A oes gennych yswiriant priodol?		
A ydych yn ymwybodol o'r holl gytundebau trwydded sydd eu hangen i gynnal gweithgareddau yn eich cyfleuster?		

5 Adnoddau a Thempledi

5.1 Adnoddau ychwanegol

Adnoddau defnyddiol ar gyfer trosglwyddo asedau:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Cynllun Rheoli Asedau 2021: Arweiniad ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol <http://www1.bridgend.gov.uk/media/299476/cat-guidance-oct-15.pdf>
- Llywodraeth Cymru, Trosglwyddo Asedau Cymunedol yng Nghymru – Canllaw Arfer Gorau, <http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/160310-community-asset-transfer-cy.pdf>
- Llywodraeth Cymru, Trosglwyddo Asedau Cymunedol, <http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/community-asset-transfer/?skip=1&lang=cy>
- Pecyn Offer Trosglwyddo Asedau Sport England - www.assettoolkit.sportengland.org
- Pecyn Offer 'Stepping Up' Cyngor Dinas Caerdydd - <http://www.cardiffdebate.co.uk/wp-content/uploads/2014/09/Stepping-Up-Toolkit.pdf>

Adnoddau defnyddiol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr:

- Cynllunio - <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/planning/development-control/a-oes-angen-i-mi-gael-caniatâd-cynllunio.aspx>
- Parciau - <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/parciau.aspx>
- Eiddo - <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/gwasanaethau-eiddo.aspx>
- Priffyrdd - <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/highways.aspx>
- Gwasanaethau Cyfreithiol - www1.bridgend.gov.uk/cy/lgnl-level-2/cyngor-cyfreithiol.aspx
- Rheoli adeiladu - <http://www1.bridgend.gov.uk/cy/gwasanaethau/planning/building-control.aspx>
- Adran Adfywio - <http://www1.bridgend.gov.uk/services/regeneration.aspx>

Cyrrff Llywodraethol Chwaraeon:

- Cymdeithas Bêl-droed Cymru - www.faw.org.uk
- Undeb Rygbi Cymru - www.wru.co.uk
- Cymdeithas Bowlio Cymru - <http://www.welshbowlingassociation.co.uk/>
- Bwrdd Criced Cymru a Lloegr - www.ecb.co.uk
- Y Gymdeithas Tennis Lawnt - www.lta.org.uk

Adnoddau cyffredinol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol a Chynllunio Busnes:

- Canolfan Cydweithredol Cymru - <http://www.cymru.coop>
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO) - www.bavo.org.uk
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) - www.wcva.org.uk
- Ymddiriedolaeth Datblygu Cymru (DTA-Wales) www.dtawales.org.uk
- Y Comisiwn Elusennau - <https://www.gov.uk/government/organisations/charity-commission>

5.2 Templod cynllunio busnes

1. Ein prosiect

Ynglŷn â'r Sefydliad Cymunedol

Ein gwerthoedd a chenhadaeth ein sefydliad

Nodau ac amcanion ein prosiect cymunedol

2. Y farchnad

Ynglŷn â'n cymuned

Marchnadoedd presennol a marchnadoedd targed

Canlyniadau ymgynghoriadau cymunedol

Gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau cymunedol presennol eraill

Cyfleoedd i feithrin partneriaethau

3. Tyfu a datblygu'r busnes

Adolygiad o'n sefydliad (Dadansoddiad SWOT)

Ein strategaeth datblygu busnes

Cam 1 – Dylunio'r prosiect (Blwyddyn 0)

Cam 2 – Datblygu'r ganolfan (Blynnyddoedd 1 - 3)

Cam 3 – Ymestyn y ganolfan (Blynnyddoedd 4 a 5)

4. Rheoli'r ganolfan

Ein tîm/pwyllgor rheoli – sgiliau/galluoedd

Staffio a rôl gwirfoddolwyr cymunedol

Datblygu gweithgareddau cymunedol

Cyflenwi a rhaglennu gwasanaethau

Polisiâu a gweithdrefnau

Gweithrediadau o ddydd i ddydd

5. Datblygu'r ganolfan

Cyfleusterau presennol

Cyfleoedd posibl i adnewyddu ac ymestyn

6. Cynllun marchnata

Adeiladu ein proffil

Hyrwyddo ein gwasanaethau

7. Cynllun ariannol (ased eiddo)

Incwm a gwariant (rhagamcanion llif arian) pum mlynedd – gweler Atodiad 4.
Rhowch dystiolaeth i gefnogi eich rhagamcanion a chrybwyllwch ragdybiaethau

Creu incwm (rhagolygon gwerthu)

Strategaeth codi arian

8. Dadansoddi risg

Cofnod risg

Cynlluniau i leihau risgiau

Atodiadau:

Atodiad 1: Cynllun Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Gymuned

Atodiad 2: Arolwg pen desg o gyfleusterau cymunedol eraill

Atodiad 3: Dadansoddiad SWOT o'r Sefydliad Cymunedol

5.3 Enghraifft o Siart Llif Arian

Nodyn	Incwm	Cam 1	Cam 2			Cam 3	
		Presennol	Bl. 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5
1	Grant 'cychwyn' yr Awdurdod Lleol						
2	Cymorth grant arall						
3	Rhent a llogi ystafelloedd						
	Neuadd fawr						
	Neuadd fach						
	Ardal Chwarae Amldeffnydd (MUGA)						
4	Incwm arall						
	Peiriannau gwerthu						
	Gwerthiannau'r caffi a'r siop						
	Arall						
5	Amser gwirfoddolwyr mewn nwyddau						



		Cam 1	Cam 2			Cam 3	
6	Gweithgareddau codi arian						
	Cyfanswm	£	£	£	£	£	£
	Gwariant	Presennol	Bl. 1	Bl. 2	Bl. 3	Bl. 4	Bl. 5
	Cyflogau staff ac argostau						
	Rheolwr y Ganolfan						
	Gofalwyr						
	Glanhaw(y)r						
	Amser gwirfoddolwyr mewn nwyddau						
8	Hyfforddiant a datblygiad staff a gwirfoddolwyr						
9	Costau gofalu/ glanhau						
	Deunyddiau glanhau						
	Casglu sbwriel						
	Diogelwch						

		Cam 1	Cam 2			Cam 3	
10	Cyfleustodau						
	Dŵr						
	Trydan						
	Nwy						
11	Trethi						
12	Atgyweirio a chynnal a chadw						
13	Cludiant a theithio						
14	Cyflenwadau'r Ganolfan						
	Taclau a deunyddiau						
	Llogi offer						
	Dodrefn swyddfa a TG						
	Dillad meddygol a chyfarpar diogelu personol						

		Cam 1	Cam 2			Cam 3	
	Ffonau						
	Rhyngrwyd						
15	Hyrwyddo'r ganolfan						
	Argraffu a deunyddiau cyhoeddusrwydd						
	Hysbysebu						
16	Rhent a chyflenwadau peiriant gwerthu						
17	Yswiriant a ffioedd proffesiynol						
	Yswiriant eiddo						
	Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus						
	Ffioedd hawliau perfformio						
	Ffioedd cyfrifyddu						

		Cam 1	Cam 2			Cam 3	
	Ffioedd cyfreithiol						
	Ffioedd penseiri						
	Ffioedd ymgynghoriaeth						
	Arall – manion a chostau amrywiol						
	Cyfanswm	£	£	£	£	£	£
		Gwarged (diffyg)	£	£	£	£	£
					Cronfeydd cronedig		£

5.4 Offeryn meithrin partneriaethau

Rhestr Wirio Partneriaethau Cymunedol				
Amlygu Partneriaid	Amlygu'r Manteision	Amlygu'r Rhwystrau	Amlygu Camau Gweithredu	Cyfathrebu
Enghraifft: grwpiau cymunedol neu chwaraeon eraill/ cynghorau cymuned/ cymdeithasau tai	Enghraifft: cael mwy o effaith/ rhannu cyfrifoldebau a risg a chyfuno adnoddau	Enghraifft: gwerthoedd sy'n gwrthdaro/ cystadleuydd lleol/ gwrthdaro o ran personoliaeth	Enghraifft: pa gamau sydd eu hangen i ymgysylltu â darpar bartneriaid	Enghraifft: beth yw'r ffordd orau i gysylltu â phartneriaid a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt – e-bost/ newyddlen ac ati.


5.5 Templed ar gyfer dadansoddi anghenion hyfforddiant

Mae dadansoddi anghenion hyfforddiant yn hanfodol o ran darganfod pa sgiliau sydd gennych yn eich sefydliad a pha sgiliau y mae angen i chi eu datblygu. Pan fyddwch yn nodi bylchau o ran sgiliau, gallwch weithio allan pa hyfforddiant sydd ei angen nawr a pha hyfforddiant y gellir ei gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Enw'r Dasg	A oes angen hyfforddiant?		Pa hyfforddiant sydd ei angen?	Sut caiff yr angen hyfforddiant ei fodloni? (Hyfforddiant yn y gwaith/gan gymheiriaid) (Hyfforddiant allanol)	Pryd?	Pwy sy'n gyfrifol am ei drefnu?
	Oes	Nac oes				

5.6 Map o Ben-y-bont ar Ogwr Wledig

Wardiau Gwledig



Allwedd y Map



Wardiau Gwledig



Wardiau nad ydynt yn wledig

1 Caerau	14 Hendre	27 Drenewydd yn Notais
2 Gorllewin Maesteg	15 Bryncethin	28 Bryntirion, Trelales & Merthyr Mawr
3 Dwyrain Maesteg	16 Bryncoch	29 Pen-y-Fai
4 Llangynwyd	17 Sarn	30 Cefn Glas
5 Blaengarw	18 Ynysawdre	31 Llangewydd & Brynhyfryd
6 Pontycymer	19 Abercynffig	32 Y Castell Newydd
7 Llangeinwyr	20 Cefn Cribwr	33 Morfa
8 Betws	21 Y Pil	34 Yr Hen Gastell
9 Nant-y-moel	22 Corneli	35 Llidiard
10 Cwm Ogwr	23 Notais	36 Pendre
11 Melin Ifan Ddu	24 Rest Bay	37 Coety
12 Penprysg	25 Gorllewin Canol Porthcawl	38 Bracla
13 Felindre	26 Dwyrain Canol Porthcawl	39 Llangrallo Isaf

Mae'r holl hawliau perchenogaeth yn y Pecyn Offer Trosglwyddo Asedau hwn yn perthyn i'r Sefydliad Eiddo Moesegol. Fodd bynnag, mae'r Sefydliad Eiddo Moesegol yn rhoi'r hawl i Ganolfan Cydweithredol Cymru wneud copïau ohono ac ychwanegu adrannau penodol at y ddogfen hon â chaniatâd (ond nid addasu, diwygio neu wneud newidiadau eraill iddi), cyn belled â'i bod yn cael ei dosbarthu trwy ddulliau digidol neu ddulliau eraill er budd cleientiaid Canolfan Cydweithredol Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn parhau'n gyfrifol am yr holl gynnwys a darparwyd ganddynt yn yr adrannau penodol, yn unol â'r cytundeb.